ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR
Rhif 2 Cyfrol 15 Ebrill 2018

www.gofalaethbangor.org - 01248 353132 (swyddfa)



PERERINDOD Y PASG

GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT
5.30: OEDFA'R NOS

Mai 6	Gweinidog
Mai 13	*Moliant y Plant yn y Felinheli*
Mai 20	Gweinidog
Mai 27	*Emaus hwyr*
Mehefin 3	Gweinidog
Mehefin 10	Y Parch. Iwan Llewelyn Jones
Mehefin 17	Gweinidog
Mehefin 24	**Y** Parch. Glyn Tudwal Jones
Gorff. 1	Gweinidog
Gorff. 8	Y Parch. Dafydd Andrew Jones
Gorff. 15	Gweinidog
Gorff. 22	Y Parch. Eric Jones

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y PYTHEFNOS

Mai 6/13	Menna Baines
Mai 20	Delyth Oswy Shaw
Mai 27	John Wynn Jones
Mehefin 3	Gareth Emlyn Jones
Mehefin 10/17	Wyn Griffiths
Mehefin 24/ 1 Gorffennaf	Elizabeth Roberts
Gorffennaf 8/15	Gareth Emlyn Jones
Gorffennaf 22/29	Gwenno Pritchard

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y DRWS

Mai 6/13	John Griffiths
Mai 20	Gareth Emlyn Jones
Mai 27	Menna Baines
Mehefin 3/10	Geraint Hughes
Mehefin 17/24	Eirian Howells
Gorffennaf 1/8	Alwyn Lloyd Ellis
Gorffennaf 15/22	Robat Roberts

RHODDWYR Y BLODAU (Cydlynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

Ebrill 29	Enyd Roberts
Mai 6	Maisie Griffiths
Mai 13	Dilys Jones
Mai 20	Sara Jones
Mai 27	Cynthia Owen
Mehefin 3	Manon Ogwen
Mehefin 10	Mair Thomas
Mehefin 17	Arwyn Evans
Mehefin 24	Nia Williams
Gorffennaf 1	Mair Thomas
Gorffennaf 8	Gracie Williams
Gorffennaf 15	Elin Walker Jones
Gorffennaf 22	Eirlys Jones
Gorffennaf 29	Lynn Jones
Awst 5	Sarah Buchan

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Y PARCHEDIG ELWYN RICHARDS

Mae misoedd cyntaf y flwyddyn wedi gwibio heibio, ac ar ôl gaeaf hir a chaled eleni fe ddaeth yn wanwyn o'r diwedd. Y mae'r Prifardd Dic Jones yn ei delyneg hyfryd, 'Y Pasg', yn gweld yn y gwanwyn arlliw o'r atgyfodiad, gan gyffesu bod adfywiad byd natur yn fwy ystyrlon iddo na chredo ac athrawiaeth:

Ond gwn, er gweld llofruddio
O'r hafau yn eu tro,
A'r eira'n eu gorchuddio
  A'r rhew'n eu rhoi dan glo,
Y bydd y blodau yn eu nerth
Ar Sul y Pasg dros Hewl y Berth.

Diau y byddai amryw yn cydymdeimlo ag agwedd y bardd. Mewn arolwg a wnaed yn 2017 pan holwyd 2010 o bobl am eu daliadau ynghylch atgyfodiad Crist, cafwyd bod 72% o Gristnogion a holwyd yn credu'r hanes a geir yn yr efengylau heb allu derbyn yr holl fanylion. Y mae yna ddirgelwch yn y stori, ac nid oes disgwyl i neb allu dirnad yr hyn a ddigwyddodd yn llwyr. Ond y mae'r dehongliad Cristnogol hefyd yn mynnu dweud mwy na bod bywyd yn anorchfygol; pwysleisia gariad Duw, aberth Crist, effaith y ffydd a ddilynodd yr atgyfodiad ar fywyd y credinwyr a'r argyhoeddiad fod daioni yn drech na drygioni. Ac y mae i hynny i gyd oblygiadau ymarferol ar gyfer y ffordd yr ydym yn byw a'n hagwedd tuag at fywyd.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf yr ydym wedi colli amryw o aelodau a fu'n ffyddlon iawn yn yr oedfaon a chyfeillion a fu'n gefn i'r Achos. Credwn nad ofer oedd eu ffydd a'u bod yn etifeddion y bywyd tragwyddol.

Y mae'r byd yn ymddangos yn fwy peryglus ac ansicr y dyddiau hyn, a'r gwrthdaro yn Syria yn bygwth heddwch byd. Ni allwn lai na gweddïo am heddwch a gweithio am gyfiawnder.

Bu argyfwng y gwasanaeth iechyd, y cynnydd mewn trais ac effeithiau tlodi ar blant a theuluoedd yn gyson yn y newyddion. Rhaid ceisio ffyrdd o wella'r sefyllfa.

Nid perthyn i ddoe y mae'r atgyfodiad gan mai galwad Duw yw i ninnau fod yn bobl yr atgyfodiad a'r bywyd.

Anfonwn ein cofion at bawb sy'n llesg a'r teuluoedd sydd mewn profedigaeth gan ddymuno nerth a bendith i chi i gyd.

Clawr: Gorymdaith Dydd Gwener y Groglith yn y Camp Rhufeinig, a drefnwyd gan Cytûn.
LLUN: DELYTH OSWY

MYFYRDOD AR GYFER Y PASG

DELYTH MARIAN WILLIAMS

Y Nadolig, fel arfer, sy'n cael ei gysylltu gyda thema rhoi a derbyn, ond mae'r thema, mi dybia i, yr un mor berthnasol ar gyfer y Pasg. Rhoi ei fywyd wnaeth Iesu ar ddydd Gwener y Groglith a rhoi cyfle i ni dderbyn yr hyn ddaeth yn sgil hynny. Yr un modd ar Sul y Pasg, rhoi cyfle i ni wnaeth Iesu pan dreiglwyd y maen. Fel yr awgryma W.E. Sangster yn *Westminster Sermons,*

"Beth bynnag oedd natur ei gorff atgyfodedig, dywed Ioan wrthym nad oedd na muriau na drysau caëedig yn rhwystrau i'w ymdaith. Ac eto, fe dreiglwyd y maen i ffwrdd, ond nid er mwyn iddo ef ddod allan, ond er mwyn i ni fynd i mewn." *(cyfieithiad Elfed ap Nefydd Roberts)*

Mae'r Pasg yn gyfle i symud meini; symud popeth sy'n ein rhwystro ni rhag derbyn cariad a gobaith neges y Pasg ond hefyd yn gyfle i symud meini ein byd cythryblus ni heddiw.

Tybed faint ohonoch chi welodd hysbyseb cwmni Amazon cyn y Nadolig? Beth bynnag ein safbwynt am egwyddorion y cwmni hwnnw, na'i wir gymhellion wrth baratoi hysbyseb o'r fath, rhaid cydnabod i'r hysbyseb am offeiriad Cristnogol ac imam Mwslimaidd yn prynu yr un anrheg i'w gilydd er mwyn hwyluso'r arfer o benlinio wrth weddïo, ddenu llawer o ymateb; rhoi a derbyn ar ei orau.

Gredwch chi y fod yna *app* newydd ar y farchnadeleni sy'n eich galluogi i drefnu i gwningen roi galwad bersonol i blentyn ar eich ffôn bach i'w hatgoffa nhw ei bod hi'n Basg ac y dylen nhw fyhafio eu hunain os ydyn nhw am dderbyn wyau Pasg?! I'r lleygwyr yn eich plith, ac rwy'n cyfri fi fy hun yn un ohonoch, talfyriad ydi *app* o'r gair Saesneg, *application* am raglen arbennig ar ffôn bach neu ddyfais gyfatebol sy'n eich galluogi chi i wneud pob math o dasgau. Erbyn meddwl, ffurf ar *app* ydi gweddi, *application* neu gais i gyfathrebu gyda Duw ac mae gŵyl y Pasg, yn anad yr un ŵyl arall efallai, yn gyfle i ni siarad gyda Duw a chanolbwyntio ar symud meini.

SYMUD MEINI

Pan yw'r drylliedig yn cael ei gyfannu,
pan yw'r clwyfedig yn cael iachâd,
pan yw'r ofnus yn cael ymgeledd,
y mae'r maen wedi ei dreiglo ymaith.
Pan yw'r unig yn canfod cyfeillgarwch,
pan yw'r trallodus yn canfod cysur,
pan yw'r pryderus yn canfod tawelwch meddwl,
y mae'r maen wedi ei dreiglo ymaith.
Pan ddysgwn rannu'n hytrach na hawlio,
pan ddysgwn gofleidio'n hytrach na tharo,
pan ymunwn yn deulu o amgylch y bwrdd,
y mae'r maen wedi ei dreiglo ymaith.
Ynot ti, Grist Iesu,
y mae pob maen yn cael ei dreiglo ymaith:
y mae cariad yn torri drwy gasineb;
y mae gobaith yn torri trwy anobaith,
y mae bywyd yn torri drwy angau.
Haleliwia! Crist a gyfodwyd!

ELFED AP NEFYDD ROBERTS

CARCHAR Y BERWYN

ADRODDIAD AR GYFARFOD BLYNYDDOL CYTÛN BANGOR

Y siaradwr gwadd yng Nghyfarfod Blynyddol Cytûn Bangor eleni, a gynhaliwyd yn eglwys Penrallt ar 8 Chwefror, oedd y Parch James Morgan, caplan Anghydffurfiol carchar y Berwyn, Wrecsam. Dywedodd fod y carchar wedi costio £250,000,000 i'w adeiladu a'i fod y mwyaf ym Mhrydain, gyda 900 o ddynion yno ar hyn o bryd.

Dosberthir carchardai yn ôl tebygolrwydd eu trigolion o ddianc, a charchar gradd C yw Berwyn – y nesaf at fod yn garchar agored. Y mae yno ddynion a gyflawnodd droseddau difrifol iawn, ond nid oes yno droseddwyr rhyw. Mae'r carcharorion gan mwyaf yn byw mewn ystafelloedd dwbl, gyda thoiled a chyfleusterau ymolchi, ynghyd â theledu sy'n derbyn sianelau *freeview*, ffôn y gallant alw nifer cyfyngedig o rifau arni a chyfrifiadur sy'n gysylltiedig â *hub* y carchar – mae hyn yn hwyluso'n fawr weinyddiaeth y carchar a'r cysylltiad rhwng y swyddogion a'r carcharorion. Blaenoriaeth y carchar, meddid, yw diogelwch, sef cadw'r carcharorion yno. Hefyd pwysleisir y nod o greu diwylliant adferol a pharatoi'r dynion i fynd yn ôl i gymdeithas. Gyda hyn mewn golwg ceisir sicrhau bod bywyd y carchar mor normal â phosibl er mwyn annog cyfrifoldeb a rhwystro'r dynion rhag gorddibyniaeth ar y system a'r sefydliad. Sicrheir hefyd fod yna ymdeimlad lleol o fewn adrannau'r carchar a pharhad o safbwynt perthynas carcharorion a staff. Gellir crynhoi gwerthoedd y carchar o dan 6 phennawd

- Gwerthfawrogi'r naill a'r llall a dathlu llwyddiant
- Dweud y gwir a chadw addewid
- Gobaith ar gyfer y dyfodol
- Sicrhau tegwch
- Cofleidio'r iaith a'r diwylliant Cymraeg
- Dal ati

Drwy'r Gaplaniaeth ymatebir i anghenion ysbrydol a gofynion lles y dynion sydd dan glo. Y mae pedwar caplan llawn-amser yn cael eu cyflogi yn y Berwyn, ynghyd â nifer o gaplaniaid rhan-amser sy'n cynnwys dyneiddiwr, pagan, rabi Iddewig, Imam, Bwdhydd, Crynwr a chaplan Pabyddol. Mae gan bob carcharor hawl i awr o addoliad yn ei grefydd ynghyd â chyfnod o astudiaeth grefyddol bob wythnos. Rhaid i bob carcharor gael ei weld gan gaplan o fewn 24 awr i gyrraedd y carchar. Pwysleisiodd y Parch James Morgan y gall eglwysi gefnogi gwaith y carchar drwy weddi, a bod hynny'n hanfodol. Mae mudiad Prison Fellowship *(www.prisonfellowship.org.uk)* hefyd yn darparu cyfleoedd i gefnogi gwaith y carchar mewn modd mwy penodol a gellir cael rhagor o wybodaeth am hynny drwy'r trefnwyr lleol, sef Michael a Joan Winwood *(michaelwinwood@btinternet.com)*

CYFRANIADAU I ICHTHUS

Mae Ichthus yn mynd i'r wasg ar ddechrau wythnos olaf pob mis, felly os oes gennych gyfraniad, boed yn erthygl, adroddiad, neu lun, gyrrwch at *gdeiniol@hotmail.com* ar ddechrau'r wythnos flaenorol os gwelwch yn dda.



MAIR FADLEN

BRUCE GRIFFITHS

Bu cryn drafod eisoes ar y ffilm *Mary Magdalene*, sy'n darlunio'r berthynas rhwng Iesu Grist a'r ffyddlonaf o'i ddilynwyr, Mair o Fagdala (heddiw Mejdel) ger Tiberias. Seiliwyd hi i raddau helaeth ar *Efengyl Mair,* efengyl apocryffaidd o'r bumed ganrif, a ddarganfuwyd yn 1896. Ni welais y ffilm eto, ond deallaf y darlunia berthynas agos a chariadlon rhyngddi ac Iesu, heb fynd mor bell ag a wnaeth sawl un dros y canrifoedd, a honni iddynt briodi a chael plant. Eto cyfyd Mair Fadlen holl fater lle a swyddogaeth gwragedd ym mywyd yr Eglwys. Darllenwch yr Efengylau'n ofalus. (XV:40) a Mathew (XXVII:56) bu hi a gwragedd eraill yn dystion i'r croeshoeliad, ac yn ôl y pedair efengyl hi'n unig, neu gyda gwragedd eraill, a aeth at fedd Iesu ac a fu'n dyst i'w atgyfodiad. Ym mha le, meddwch, yr oedd y disgyblion dewr a ffyddlon? Nid ger Golgotha nac wrth y bedd. Hi a gyhoeddodd y newydd syfrdanol iddynt, ond amharod y buont i'w chredu hi.

Er hyn oll, ni restrwyd hi na'r un wraig arall ymysg y disgyblion. Cofnodwyd Pedr ac ambell ddyn arall yn holi Iesu ac yn trafod pwnc gydag Ef, ond nid yr un wraig, er mor anodd credu hynny, i mi o leiaf. Ni wyddys

Golygfa o'r ffilm newydd 'Mary Magdalene'

Ynddynt enwir hi o leiaf ddwsin o weithiau, yn amlach na'r rhan fwyaf o'r apostolion. Edrydd Luc (VIII:2) a Marc i'r Iesu fwrw saith cythraul allan ohoni. Wedyn cyfeirir ati hi a gwragedd eraill fel ei ddilynwyr, a fyddai'n gofalu amdano Ef a'r disgyblion eraill. Ei henw hi sydd ar ben y rhestr bob tro, awgrym o'i phwysigrwydd. Yn ôl Marc a oedd Mair yn hen ynteu'n ifanc, yn hardd ai peidio, o deulu tlawd ynteu o deulu cefnog. Dyfalwyd ei bod efallai'n wraig hŷn ac o deulu cefnog, fel yr oedd Joanna gwraig Chuza, dilynwraig arall, ond ni ellir bod yn sicr. Pan aethpwyd ati, yng Nghyngor Nicaea yn 325, i safoni'r ysgrythurau, bwriwyd heibio fyrdd o ddogfennau a oedd

efallai'n cynnwys traddodiadau a rhyw gnewyllyn o wirionedd ynddynt: megis *Efengyl Mair,* sy'n rhoi lle pwysig iddi, a lle dywed Pedr wrthi 'Y chwaer, gwyddom i'r Gwaredwr dy garu'n fwy na phob merch arall: dywed wrthym eiriau'r Gwaredwr a gofi, y pethau a wyddost ti na wyddom ni, oherwydd na chlywsom ni mohonynt' ac fe wna Mair hynny. Ond nis credir hi, gan mai gwraig ydoedd. Ceir dogfennau eraill sy'n awgrymu eiddigedd Pedr o bwysigrwydd Mair.

Ni fu gan grefyddau'r Dwyrain Canol le i wragedd fel proffwydi na dysgodron nac offeiriaid: bu tuedd i fynd i'r naill eithaf neu'r llall, eu hystyried yn santesau gwyryfol neu'n buteiniaid; ond yn yr Eglwys perchid santesau megis Mair Fadlen yn fawr iawn. Eto teimlid rhyw ansicrwydd yn ei chylch ac aethpwyd i dybio mai'r un oedd hi â'r wraig bechadurus, y gynbutain, y sonnir amdani gan Luc. Yn y flwyddyn 591, cyhoeddodd y Pab Grigor Fawr hynny mewn pregeth, wedi drysu rhwng tair Mair – Mair o Fethania, Mair Fadlen a gwraig bechadurus Luc, ac am fil a hanner o flynyddoedd ystyriodd yr Eglwys mai putain fuasai hi – putain edifeiriol, wrth gwrs. Parhaodd hyn hyd 1969 pan ddilëwyd y gamdybiaeth yn ddistaw bach. Troes y rhod. Gan gydnabod o'r diwedd y rhan bwysig a fu rhan Mair Fadlen, fel y tyst cyntaf i gyhoeddi'r Atgyfodiad, yn 2016 ychwanegodd yr Eglwys ei henw i ran gyntaf yr Offeren, gan ei galw'n *apostola apostolorum,* apostol yr apostolion.

Ganmlwydd yn ôl, cafodd merched y wlad hon y bleidlais, a chael bod yn aelodau seneddol. (Cawsent y bleidlais yn y Wladfa o'r cychwyn, yn 1865.) Erbyn hyn mae gennym ni ein blaenoresau a'n bugeilesau, ac yn yr Eglwys Anglicanaidd mae offeiriaid ac esgobion sy'n wragedd (gan gynnwys Esgob Tyddewi ac Esgob Llandaf) a phob clod iddynt. Ond fel y dywedodd cyfeilles Gatholig annwyl iawn wrthym, nid yw Eglwys Rufain (na'r Eglwys Uniongred) wedi gweld eto ba ran y dylai merched ei chwarae ym mywyd eu heglwys. Daliwn i ddisgwyl a gobeithio. Os ewch i weld y ffilm, anfonwch eich sylwadau (cryno!) at Menna Baines, golygydd *Ichthus.*

LLYWYDD NEWYDD

Llongyfarchion i Mrs Cynthia Owen ar gael ei hethol yn Llywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd, 2019–2020. Dymunwn yn dda iddi a gweddïwn am fendith Duw ar ei Llywyddiaeth.

CÂN Y BUGAIL

ENID ROBERTS

Wrth wrando ar y Barchedig Casi Jones yn annerch y plant un bore Sul ac yn eu holi am fywyd a gwaith y bugail, daeth i'm cof ddarlith gan ŵr o Syria.

Enw'r gŵr oedd Faduel Moghabghab. Yn gellweirus, gofynnodd i'r gynulleidfa ynganu ei enw. Wedi iddynt fethu dywedodd, "Accent the 'u' and drop the 'g's'." Gŵr bychan manesol, caredig a direidus yr olwg oedd Faduel, gyda'i lygaid du yn pefrio a'i ddannedd lliw llefrith i'w gweld drwy ei fwstash du.

Yn Ainzehalta, ar lethrau Mynyddoedd Syria, y cafodd ei fagu.

Dechreuodd siarad am ei lencyndod yno gan dweud m o fywyd y bugail yn ei wlad ef y daeth y gân felysaf erioed – ie, Salm 23. Mae llawer o hanesion o'r hen ddyddiau yn Syria wedi eu gwau i eiriau'r Beibl. Aetl Faduel ymlaen i ddehongli'r salm gan ddweud mai hanes y bugail yw drwyddi draw.

Efe a'm tywys gerllaw y dyfroedd tawel

Mae'r defaid eisiau bwyd a diod ond does dim llawer o ddŵr rhedegog – dim nentydd fel yn ein gwlad ni – felly rhaid tywys y defaid at ffynhonnau a thanciau dŵr (dyfroedd llonydd neu dawel) i dorri eu syched. Soniodd Faduel am y gwahanol agweddau o waith caled y bugail. Mae llawer o gaeau a gwinllannoedd preifat yn y wlad ac os yw'r defaid yn digwydd cael eu dal yn crwydro iddynt rhaid wedyn eu trosglwyddo i berchennog y tir. Anodd iawn yw dod o hyd i lwybrau diogel i'w harwain gan fod y llethrau mor serth.

Ceir y llwybrau gorau yn y dyffrynnoedd ond maent yn beryglus.

glyn cysgod angau

Mae gan bob dyffryn ei enw fel 'Dyffryn y Lladron,' 'Hafn y Gigfran' ayyb. Ond mae'r bugail bob amser yn eu harwain gyda gwialen i'w hamddiffyn, ac yn galw "Ta-a-a-a, Ho-o-o-o", a hwythau'n ymateb drwy redeg tuag ato.

Y gwaith caletaf un i'r bugail, yn Syria, yw chwilio am borfa dda i'w ddefaid, yna archwilio'r fan a'r weirglodd yn ofalus cyn gadael y defaid i mewn i bori.

Ti a arlywi ford ger fy mron yng ngŵydd fy

ngwrthwynebwyr

Yn y gwair ceir planhigion sy'n wenwynig i'r defaid a rhaid dod o hyd iddynt. Collodd teulu Faduel dri chant o ddefaid drwy wneud camgymeriad. Ceir hefyd dyllau gwiberod; mae'r ymlusgiaid gwenwynig yn brathu trwynau'r defaid wrth iddynt bori, felly rhaid llosgi saim mochyn ger pob twll i'w cadw draw.

O amgylch y porfeydd mae ogofâu ac ynddynt yn byw mae anifeiliaid rheibus fel y siacal, yr udfil, bleiddiaid a hyd yn oed teigrod. Rhaid i'r bugail fod yn ddewr a gwyliadwrus wrth gau'r ffeuau a'r ogofâu â cherrig.

Mae'r salmydd wedi canu am waith dyddiol y bugail ond mae un olygfa arall i ddod – gyda'r nos ger adwy'r gorlan. Yno mae'r bugail gyda'i wialen yn cyfrif ac archwilio pob un o'r defaid wrth iddynt ddychwelyd.

Iraist fy mhen ag olew, fy ffiol sydd lawn

Mae ffiol y bugail yn llawn o olew o'r olewydden i iro pen ac wynebau'r defaid blinedig, a thar o'r gedrwydden i'w roi ar eu clwyfau. Bydd llestr o ddŵr yn eu haros, yna cânt orffwys dros nos yn ddiogel.

Wrth wylio ei braidd caiff y bugail yntau orwedd yng ngolau'r lloer a'r sêr, a meddwl am grwydr y dydd a diolch i Dduw am edrych ar ei ôl unwaith yn rhagor, gan obeithio y gwnaiff wneud hynny hyd ddiwedd ei oes.

Daioni a thrugaredd yn ddiau a'm canlynant holl ddyddiau fy mywyd a phreswyliaf yn nhŷ'r Arglwydd yn dragywydd.

ORDEINIO ANNA JANE

Yn y Gymdeithasfa yn y Gogledd nos Fawrth, 17 Ebrill, yng nghapel Heathfield Rd, Lerpwl, ordeiniwyd Y Barch Anna Jane Evans yn weinidog (rhan amser, gwirfoddol) i wasanaethu o fewn Henaduriaeth Arfon. Llywydd y Gymdeithasfa, y Parch Eric Jones, a'r Llywydd Etholedig, y Parch Olwen Williams, Tudweiliog, arweiniodd y gwasanaeth. Roedd tyrfa dda o gefnogwyr o Arfon yno hefyd. Yn ei anerchiad, oedd yn cyfuno'r arfer i'r llywydd roi araith ymadawol a'r traddodiad o roi cyngor wrth ordeinio, canolbwyntiodd y Parch Eric Jones ar Math 10:16 gan bwysleisio fod yn rhaid ymlid y bleiddiaid o hyd. Dymunwn yn dda iawn i Anna Jane fydd yn parhau

gyda'i gwaith i Cymorth Cristnogol ac yn gofalu am Eglwys y Berth, Penmaenmawr, gan gynorthwyo hefyd gyda'r cylch pregethu.

LLANW 2018

DELYTH OSWY

Mae Llanw yn ŵyl Gristnogol Gymraeg, anenwadol, a gynhelir bob Pasg. Eleni roedd yng Nghydweli, a'r thema oedd 'Antur yr Atgyfodiad' yn seiliedig ar adnod o Luc 'Mae'n wir! Mae'r Arglwydd wedi dod yn ôl yn fyw!' Roedd anerchiad bob bore, yna grwpiau trafod a seminarau, efo gweithgareddau ar gyfer pob oed yn y pnawn, fel chwaraeon,

Uchod: Alun Tudur, arweinydd seminar yn Llanw 2018
Prif lun: Rhys Llwyd, prif siaradwr yr ŵyl

teithiau cerdded, nofio, pryd bwyd ac ati.

Yn ôl Rhys Llwyd, prif siaradwr yr Ŵyl eleni, diben ei sefydlu un mlynedd ar ddeg yn ôl oedd "i roi cyfle i Gristnogion ddathlu gyda'i gilydd a dangos fod yna arwyddion o obaith, er gwaethaf trai crefydd draddodiadol". Dyma sylwadau rhai pobl oedd yno:

"Mae hi'n wythnos galonogol. Mae'n braf cael mewnbwn o'r cyfarfodydd, a hefyd cyfarfod ffrindiau hen a newydd."

"Mae'n gyfle i mi addoli yn Gymraeg a bod efo Cristnogion eraill o bob rhan o Gymru, achos dwi'n mynd i gapel Saesneg fel arfer. Mae'n dda clywed be sy'n mynd ymlaen mewn ardaloedd eraill."

"Dyma'r tro cyntaf i mi ddod, 'dan ni wrth ein bodd. Mae'r siaradwyr yn tanio rhywun, ac mae'n gyfle i gyfarfod pobl newydd hefyd."

"Mae'r plant wedi g'neud ffrindiau newydd ac maen nhw'n cael dysgu am Dduw mewn ffyrdd hwyliog. Mae'n gymdeithasol ofnadwy – mae pawb wedi bod yn groesawgar a chyfeillgar."

"Mae'n braf gweld cymaint o bobl iau, yn Gymry Cymraeg o bob enwad, yn mwynhau pethe Cristnogol."

"Dwi'n byw yn Lloegr, felly mae'n gyffrous i mi weld be mae Duw yn wneud ymysg Cristnogion yng Nghymru."

PLANT, IEUENCTID A THEULUOEDD

OWAIN DAVIES

Wel mae'r misoedd yn gwibio heibio ac mae'r plant, ieuenctid a theuluoedd wedi bod yn brysur!

CIC BANG – Mae'r criw bywiog yma yn cyfarfod bob nos Lun rhwng 7.30 a 9.00yh. Rydym wedi cael tymor o gystadlaeuthau bwrdd pêl-droed, snwcer a thenis bwrdd. Rydym yn mynd i Ganolfan David Brailsford Bangor nos Lun 30 Ebrill am dwrnament pêl-droed.

CIC BACH – Mae'r clwb yma yn cynyddu bob wythnos. Rydym wedi bod yn brysur yn chwarae gemau ac amrywiaeth o weithgareddau. Roedd y cwis yn hwyliog – mae'r aelodau'n blant galluog iawn! Mae'r clwb yn cyfarfod bob nos Lun rhwng 6.15 a 7.15yh.

CIC BANG FELIN – Rydym bellach wedi sefydlu clwb newydd ar gyfer plant blynyddoedd ysgol 1–7 yng Nghapel Bethania, Y Felinheli. Mae'n cyfarfod ar nos Fercher rhwng 6 a 7yh. Rydym yn cael llawer o hwyl yn gwneud amrywiaeth eang o weithgareddau. Croeso i aelodau newydd.

BWRLWM PASG BEREA – Cafwyd gweithgaredd Bwrlwm Pasg Berea ar ôl ein hoedfa deuluol ar 25 Mawrth. Bu'r plant yn gwneud pob math o bethau megis paentio wyau, rhedeg rasys wy ar lwy a chael helfa wyau Pasg, tra oedd yr oedolion yn mwynhau paned yn y festri.

MOLIANT Y PLANT – Nodyn i'r dyddiadur: ar ddydd Sul 13 Mai bydd Moliant y Plant yn cael ei gynnal ym Methania, Y Felinheli, am 10yb. Yn ystod y gymanfa bydd plant ac ieuenctid sydd wedi cwblhau'r maes llafur cof yn cael eu gwobrwyo. Gofynnwn yn daer i aelodau Berea Newydd a Bethania gefnogi

Rhai o griw Cic Bach yn ymweld â'r sinema yn ddiweddar i wylio'r ffilm 'Fernando'

Cic Bang Felin

Bwrlwm Pasg Berea

gweithgareddau'r Ysgol Sul drwy fynychu'r gymanfa os gwelwch yn dda. Mi fydd cludiant yn cael ei drefnu o Berea Newydd i Fethania; os hoffech fanteisio ar hynny cysylltwch gyda Mr Gwilym Roberts, Mr John Wynn Jones neu Owain.

Criw Agor y Llyfr yn oedfa deuluol Sul y Blodau, Berea.
Isod: Oedfa deuluol Dewi Sant, Bethania

GWASANAETHAU TEULUOL – Dros y misoedd diwethaf rydym wedi cael tair oedfa deuluol lawn egni ac arddeliad ym Berea a Methania, a diolch yn fawr i'r plant, yr athrawon ysgol Sul, aelodau'r clybiau capel a'r rhieni am fod yn barod i gymryd rhan. Diolch hefyd i dîm Agor y Llyfr am gynorthwyo yn yr oedfa deuluol Sul y Blodau yn Merea.

TEULUOEDD O SYRIA
- DIWEDDARIAD

DELYTH OSWY

Mae wyth teulu bellach wedi dianc o ryfel Syria i dawelwch Gwynedd. Dewiswyd eu cartrefu yn ardal Bangor, o fewn cyrraedd i'r mosg, trafnidiaeth gyhoeddus, ac ysgolion a cholegau. Y mudiad gwirfoddol sy'n cydgordio'r gefnogaeth yw 'Pobl i Bobl Bangor' (gw. eu tudalen Facebook) ac yn eu cyfarfod blynyddol diweddar cafwyd crynodeb o'u gwaith yn ystod y flwyddyn.

Cynhaliwyd Clwb Saesneg yn ystod gwyliau'r ysgol yn Festri Emaus, ac mae gwersi Saesneg anffurfiol yn parhau. Mae dillad a nwyddau yn cael eu casglu yn gyson (y man casglu agosaf yw Dr Ziggs ar Stad y Faenol). Mae'r dillad, pramiau, bagiau ac ati yn cael eu didoli gan wirfoddolwyr (bob nos Fercher yn Dr Ziggs), yna drwy gydweithio efo grwpiau eraill ym Mhrydain, cânt eu gyrru fesul lori i'r mannau lle mae'r mwyaf o'u hangen – Ynysoedd Groeg, Calais ac ati. Bu rhai o'r grŵp yn gweithio mewn ceginau yn bwydo ffoaduriaid mewn mannau yn Ewrop.

Rhoddodd un o'r dynion Syriaidd ddiweddariad ar ei sefyllfa. Mae o'n helpu efo'r didoli dillad yn gyson, ac yn gwirfoddoli yn Pontio. Mae'n mynchu gwersi Saesneg, ac mae newydd basio ei brawf gyrru. Mae'r teuluoedd yn setlo yn raddol er bod rhai wedi dioddef pethau erchyll. Mae'r plant mewn ysgolion lleol ac yn dysgu Cymraeg a Saesneg.

Rhai cynlluniau ar gyfer y dyfodol yw arddangosfa o gelf Syriaidd yn Storiel yn yr hydref, a chynllun i noddi un teulu yn gyfan gwbl drwy'r gymuned (yn ychwanegol at y teuluoedd a noddir gan y llywodraeth). Mae Eglwys Berea Newydd wedi bod yn hael yn cynnig cefnogaeth i'r teuluoedd drwy roddion ariannol, fel y'n hanogir: 'Dylech chithau hefyd ddangos cariad at fewnfudwyr' (Deuteronomiwm 10:19). Diolch i bawb sydd wedi dangos diddordeb yn y gwaith pwysig yma.

PROFIAD MOHAMED

Mohamed ydw i, 11 oed, o Syria.

Symudais i'r DU efo fy nheulu – Mam, Dad a 'mrawd. Bu'n rhaid inni adael Syria oherwydd y rhyfel yno. Fe wnaethon ni gyrraedd y DU ar ddiwedd 2016, a setlo yng ngogledd Cymru – ym Mhorthaethwy, Ynys Môn.

Mae pobl yn y fan hyn wedi ein croesawu ni, ac maen nhw'n gyfeillgar iawn.

Mae popeth yma yn hardd – y môr, y mynyddoedd, y coed, a'r hen bontydd gwych.

Dwi'n teimlo bod llawer o bethau wedi eu newid yn fy mywyd pan gyrhaeddais i yma o Syria. Fe wnes i adael fy ffrindiau a 'mherthnasau yno, ond yn awr mae gen i ffrindiau newydd yn fy ysgol. Mae gen i hefyd chwaer fach sy'n 7 mis oed. Dwi'n hoffi fy ysgol, fy ffrindiau a'r athrawon.

Dwi'n dysgu Cymraeg a Saesneg, mae fy astudio'n mynd yn dda iawn, ac mi fydda i'n mynd i'r ysgol uwchradd y flwyddyn nesaf. Rŵan dwi'n byw mewn lle heddychlon a saff, a dwi'n gallu mwynhau gwrando ar gân yr adar, a chwarae efo 'mrawd a ffrindiau – dim mwy o fomiau a ffrwydriadau.

Dwi'n gobeithio y bydd y rhyfel yn dod i ben yn Syria ac y bydd rhyfel ym mhob rhan o'r byd yn dod i ben hefyd.

Mae pob plentyn Syriaidd yn chwilio am heddwch ac eisiau bod yn saff. Maen nhw eisiau gallu chwarae a mynd i'r ysgol yn ddiogel.

Dwi eisiau bod yn ddoctor er mwyn gofalu am blant sydd angen gofal.

YMWELIAD Â SISILI

GARETH TILSLEY

Ygair bach awgrymog Maffia yw'r un a glywir amlaf pan fo ymweliad â Sisili yn cael ei grybwyll, ond fe welsom ni bod agweddau llawer amgenach i'r ynys hon na'r cysylltiad â'r Cosa Nostra! Yn wir dywedir bod gafael y Maffia ar yr ynys wedi cilio bron yn gyfangwbwl erbyn hyn yn dilyn ymgyrchoedd caled yn niwedd y ganrif ddiwethaf i ddod â'u dylanwad i ben. Lle heddychlon, croesawgar iawn oedd ein prif argraff ni ar ddiwedd pythefnos yno yn ddiweddar.

Mae sefyllfa ganolog Sisili ym Môr y Canoldir wedi rhoddi iddi hanes lliwgar dros y canrifoedd. Bu Phoeniciaid, Groegiaid, Rhufeiniaid, Arabiaid a Normaniaid ac eraill yma yn eu tro, ac mae dylanwad y diwylliannau yma i'w gweld yn gryf yng ngwahanol rannau o'r ynys heddiw. Ac i raddau fe lwyddodd y gwahanol bobloedd i ymwneud â'i gilydd yn weddol heddychlon dros y canrifoedd. Nid peth newydd i Sisili yw gweld ffoaduriaid yn cyrraedd ei glannau, ac yma y daw nifer helaeth ohonynt o gyfandir Affrica y dyddiau hyn.

Mewn man a elwir 'Dyffryn y Temlau' yn ne'r ynys fe welsom olion temlau Groegaidd niferus - mwy sylweddol meddir nag a welir hyd yn oed yng ngwlad Groeg heddiw - a gerllaw iddynt olion temlau Rhufeinig o gyfnod diweddarach. Ac yng nghanolbarth Sisili mae gweddillion helaeth villa Rhufeinig yn llawn o fosaics anhygoel yn rhoi toreth o wybodaeth am arferion a diddordebau Rhufeinwyr y bedwaredd ganrif OC.

Fe sefydlwyd un o'r eglwysi Cristionogol cyntaf yn Siracusa, ac yng ngweddillion Basilica San Giovanni fe welsom fan lle honir i'r Apostol Paul ei hun draddodi pregeth. Islaw mae sawl catacwm, sef mynwent danddaearol, lle bu rhaid i'r Cristionogion cynnar lochesu rhag erledigaeth y Rhufeiniaid, a dywedir bod tua ugain mil ohonynt wedi eu claddu yma dan eglwys San Giovanni.

Rhyfeddol yw gweld bod y Normaniaid wedi teyrnasu yn Sisili, a hynny mor bell o'u cynefin, ac mae adeiladau ac eglwysi niferus yn ardal Palermo yng ngogledd yr ynys yn dyst i'w cyfnod hwy yno. Dyna'r eglwys hardd ym Monreale, rhyw ychydig filltiroedd o'r ddinas ar lethr

➤ *trosodd*

➤ *o dudalen 15* Monte Caputo gyda golygfeydd dros ddyffryn ffrwythlon y Conca d'Oro y tu ôl i Palermo. Adlais o'r dylanwadau Rhufeinig ac Arabaidd yw'r eglwys, yn llawn o fosaics cywrain, ac yn eu plith mae teyrnged i'r Archesgob, yn ddiweddarach y Sant, Thomas à Becket, a lofruddiwyd yn 1170 OC yn Eglwys Caergaint ar gais Harri ll, brenin Lloegr. Mae llun o'r mosaic hwn i'w weld isod, gyda'r llythrennau THO i'w gweld un ochr, a MAS CANTvBl yr ochr arall (Caergaint yw'r CANTvBl).

Ond o'r holl fosaics a welsom mewn eglwysi doedd dim i'w cymharu â'r rhai yn y Cappella Palatina yn Palermo, sydd yn rhan o'r hen balas brenhinol yno. Fe'i comisiynwyd gan y brenin Normanaidd Rosier II yn 1132, ac mae'n cyfuno agweddau Arabaidd a Normanaidd, a'i do yn gromen yn y dull Bysantaidd. Roedd pob wal, pob colofn, pob cornel yn wir, wedi eu gorchuddio gan fosaics cyfoethog mewn cyflwr perffaith, yn adrodd storïau o'r Beibl. Mae yna nifer helaeth o hanesion o'r Hen Destament, a rhoir lle amlwg i ddigwyddiadau o'r Testament Newydd, gan gynnwys rhai o deithiau Paul o amgylch Môr y Canoldir.

Tipyn gwahanol i gapeli moel Cymru ddywedwn i! Pawb at y peth y bo!

Y GYMDEITHAS

RICHIE THOMAS, PENMACHNO

GWENNO PRITCHARD

Nos Iau, 8 Chwefror, fe ddaeth Walter Glyn Davies o Amlwch atom i roi sgwrs am ei arwr Richie Thomas, y tenor poblogaidd o Benmachno.

Ganwyd Richie Thomas yn 1906. Roedd yn rheolwr y felin wlân yn ei waith bob dydd, a daliodd ati nes cyrraedd oed ymddeol. Bu'n arwain y canu yn ei gapel am dros bum deg mlynedd.

Ar ddechrau'r pum degau cafodd Richie Thomas gryn lwyddiant mewn cystadlaethau cerddorol. Yn 1951 enillodd yn Eisteddfod Môn. Yn 1952 enillodd yn y Blackpool Music Festival, allan o 240 o gystadleuwyr, trwy ganu tair aria, a bu'r wasg yn hynod o garedig tuag ato. Yn 1953 cipioddd y Ruban Glas, yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl, trwy ganu Serenade gan Schubert, gyda Mamie Noel Jones yn cyfeilio, a hefyd enillodd y Rosebowl yn Blackpool. Erbyn hynny roedd yn 47 oed, ac o hynny ymlaen bu'n brysur yn cynnal cyngherddau a gwneud recordiau.

Un a'i clywodd yn canu yn llanc pymtheg oed, ac a wirionodd ar ei lais, oedd Walter Glyn Davies. Clywodd ef gyntaf yng Nghymanfa Eisteddfod Môn yn 1956, ac fe wnaeth argraff fawr arno wrth ganu'r emyn 'Y gŵr wrth ffynnon Jacob', ac 'Am achub hen rebel fel fi'. Recordiwyd y caneuon yma gan gwmni Qualiton. Yr oedd Richie Thomas wedi gwneud cymaint o argraff ar Walter Glyn fel y penderfynodd geisio ei gael i ddod i gynnal cyngerdd yn y Neuadd Goffa yn Amlwch. Fe gytunodd Richie Thomas i ddod a daeth â pharti canu gydag

o, gyda'u cyfeilydd Davy Jones. Yn 1962 daeth Richie Thomas a Gwen Parry Jones i gynnal cyngerdd yn yr ardal eto. Canwyd y *Misere* allan o *Il Trovatore,* a 'Come back to Sorrento'. Roedd y canu'n wefreiddiol ac roedd yn noson i'w chofio.

Cafodd Richie Thomas wahoddiad i fynd i America, ac i ymuno â chwmni opera Saddler's Wells, ond oherwydd cyngor i beidio gan Leila Megane, aeth o ddim. Wrth ymddangos ar y sianel deledu TWW roedd i ganu pedair cân, a'r gorchymyn a gafodd oedd 'You must sing three of these songs in English.'

Yn 1962 roedd cyd-fyfyrwyr Walter Glyn eisiau i Richie Thomas ddod i gynnal cyngerdd yn y Coleg Normal. Fe gytunodd Richie Thomas, ac fe gafodd Walter Glyn y fraint o gyfeilio iddo. Arweinydd y noson oedd Trefor Selway, ac roedd Neuadd y Normal dan ei sang. Dwy o'r caneuon a ganwyd oedd 'Galwad y Tywysog' a 'Llwybr yr Wyddfa', cafwyd sawl *encore,* a chodwyd digon o arian i Gerallt Lloyd Owen allu cyhoeddi cyfrol o farddoniaeth. Cafwyd cyngerdd ym Mhenmachno, gyda Trebor Edwards yn canu rhai o'r caneuon a boblogeiddiwyd gan Richie Thomas.

Bu Richie Thomas farw yn 1988, a dadorchuddiodd dau o'i feibion lechen ar ei gartref i'w goffáu.

BEIRDD, LLENORION.. A DYLUNWYR

Fel y dangoswyd o'r blaen ar dudalennau *Ichthus*, mae'r awen yn fyw ac yn iach ymhlith aelodau iau Bethania a Berea Newydd. Yn y rhifyn diwethaf adroddwyd ar gamp Osian Owen o'r Felinheli, sydd ar ei drydedd flwyddyn ym Mhrifysgol Bangor, yn ennill cadair Eisteddfod Llanaelhaearn, a'r tro hwn mae'n bleser cael ei longyfarch ar gipio'r dwbl – y Gadair a'r Goron – yn Eisteddfod Ryng-golegol a gynhaliwyd yn Llanbedr Pont Steffan. Da iawn ti Osian.

Llongyfarchiadau hefyd i Tomos Lynch, sy'n ddisgybl chweched dosbarth yn Ysgol Tryfan, ar ennill cadair Eisteddfod yr ysgol fis Mawrth. Gwnaed yr achlysur hyd yn oed yn fwy arbennig i Tomos gan y ffaith mai un o'i ffrindiau gorau, Guto Davies, yntau'n aelod ym Merea, a ddyluniodd y gadair fechan hardd a dderbyniodd.

SALM AC EMYN

	EMYN	SALM
6 MAI	406 BEDWYR LLŶR	5: 1–8 LLIO EURGAIN
13 MAI	*MOLIANT Y PLANT*	
20 MAI	399 ELEN GWYNN	46: 1–3 a 7 OWAIN GWYNN
27 MAI a 3 MEHEFIN	*HANNER TYMOR*	
10 MEHEFIN	122 MATI ROBERTS	19: 1–8 ELERI ROBERTS
17 MEHEFIN	129 FFLUR EDWARDS	11 CATRIN EDWARDS
24 MEHEFIN	150 HANNA GWYN EDWARDS	22: 22–28 OWAIN EDWARDS
1 GORFF.	422 HANNA MAIR JONES	95: 1–7 DANIAL JONES
8 GORFF.	411 MEILYR LYNCH	15 TRYSTAN OWEN
15 GORFF.	*GŴYL PEN TYMOR*	

Diolch yn fawr am eich cyfraniad
Os bydd plentyn neu deulu'n newid Sul gyda rhywun arall,
hysbyser Mari Lois –
dwjmlw@hotmail.com / 07980 287933. Diolch.

MASNACH DEG

Cofiwch bob amser ein bod wedi cytuno fel eglwys i ymrwymo i Fasnach Deg, felly cofiwn ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg, megis coffi, siwgr a bisgedi, yn ein holl gyfarfodydd.

COFIWCH AM DUDALENNAU BEREA AR Y GWEFANNAU!

www.gofalaethbangor.org / www.henaduriaetharfon.org

Y DYDDIADUR

MAI

Pob nos Lun	CIC BANG BACH: 6.15-7.15 CIC BANG: 7.30-9.00
8fed	UNDEB ATHROFA'R BALA: Y GYNHADLEDD FLYNYDDOL. Seilo, Eglwys Unedig Llandudno ***Pwnc: Cristionogaeth a Gwyddoniaeth*** Darlithwyr/Siaradwyr: Athro Emeritws Deri Thomas, Y Parch. Ddr. Noel Davies OBE
Sul 13eg	BETHANIA, Y FELINHELI: Moliant y Plant, 10.00

MEHEFIN

Pob nos Lun	CIC BANG BACH: 6.15-7.15 CIC BANG: 7.30-9.00

GORFFENNAF

Pob nos Lun	CIC BANG BACH: 6.15-7.15 CIC BANG: 7.30-9.00
Sul 15ed	BEREA NEWYDD: Gŵyl Pen Tymor (a gweithgaredd i'r plant i ddilyn): 10.00

CYMUN YN Y CARTREF

Os oes aelod sy'n methu dod i'r oedfaon a fyddai'n hoffi cael cymun gartref, a wnewch chi gysylltu â blaenor eich corlan neu'r gweinidog (elwynrichards@btinternet.com / 01286 676435) i drefnu hynny, os gwelwch yn dda.

Bwrlwm Pasg Berea: y plant yn creu...

...a'r oedolion yn mwynhau paned a sgwrs